Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Ebrill 2015 i'w hateb ar 21 Ebrill 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau'r gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2218(FM)**W**

2. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2208(FM)**W**

3. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)2215(FM)

4. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig, 'An Economic Strategy for Wales'? OAQ(4)2222(FM)

5. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithlonrwydd ynni stoc dai Cymru? OAQ(4)2221(FM)**W**

6. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gau ysgolion yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2213(FM)

**7. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoleiddio gwasanaethau bysys yng Nghymru? OAQ(4)2212(FM)

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i ddiweddaru canfyddiadau Adroddiad Holtham 2010? OAQ(4)2210(FM)**W**

**9. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau twf economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2206(FM)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safonau ysgolion yn Nhorfaen? OAQ(4)2219(FM) **TYNNWYD YNOL**

**11. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella amseroedd aros y GIG? OAQ(4)2207(FM)

**12. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal plant? OAQ(4)2223(FM)

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon yng Nghymru? OAQ(4)2217(FM)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol adeiladau eglwysi a chapeli yng Nghymru? OAQ(4)2205(FM)

**15. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru? OAQ(4)2214(FM)